Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Committee**

Eich cyf: Your ref
Ein cyf . Our ref: Canc Serv

25 Ebrill 2006

**GWASANAETHAU CANSER AR GYFER POBL CYMRU**

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal adolygiad o wasanaethau canser ar gyfer pobl yng Nghymru.

Dyma'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad:

i. adolygu cydraddoldeb y ddarpariaeth a mynediad cyfartal i ystod lawn o wasanaethau canser o ansawdd uchel sy'n bodloni'r Safonau Canser Cenedlaethol;

ii. nodi'r rhwystrau i wasanaeth da ac argymell mesurau i'w goresgyn;

iii. cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad erbyn 2 Mawrth 2007.

Nododd y Pwyllgor nifer o faterion o ganlyniad i ymgynghoriad rhagarweiniol a gynhaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Nodir y rhain yn yr Atodiad. Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i anfon tystiolaeth ysgrifenedig at y Pwyllgor ynghylch rhai o'r rhain neu bob un ohonynt. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb yn electronig drwy ddefnyddio'r atodiad fel templed. **Mae copi o'r templed i'w gael ar wefan y**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg The National Assembly for Wales welcomes correspondence in Welsh or English

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel:029 2089 8149
GTN:1208 8149
Ffacs • Fax:029 2089 8021
Ebost • Email:jane.westlake@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**pwyllgor** http://www.cymru.gov.uk/keypubassemhealsocsvs/content/policy-w.htm.
Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd hyn yn peri problem i chi.
Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mawrth er mwyn rhoi'r cefndir i chi. Gallwch ddod o hyd iddo ar y rhyngrwyd yn http://assembly/rop/ROP/Committees/HSS/hss060323fv7.pdf . Rhowch wybod i mi a fyddai'n well gennych gael copi caled.

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth naill ai mewn adroddiad neu fel tystiolaeth atodol i adroddiad. Ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ein barn ni, fel enw a manylion cyswllt, oni bai y rhoddwyd caniatâd neu os yw'r manylion hyn yn ymwneud â sefydliad.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu o fewn Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os na fydd y wybodaeth a anfonir, ac eithrio data personol, yn addas i'w datgelu'n gyhoeddus ym marn y darparwr, penderfyniad y darparwr yw nodi pa wybodaeth na ddylid ei chyhoeddi a rhoi rheswm dilys dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi'r dystiolaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os ceir cais am wybodaeth, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth a ddarparwyd naill ai fel tystiolaeth, papur neu unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall. Efallai y bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a symudwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Bydd y Pwyllgor yn dechrau clywed tystiolaeth lafar ym mis Mehefin. Bydd hyn yn parhau yn ystod yr Hydref, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y dystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ysgrifenedig hwn. Ar yr adeg hon, efallai y bydd y Pwyllgor yn penderfynu cyfyngu nifer y materion y bydd yn eu trafod.

Anfonwch eich tystiolaeth drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol: jane.westlake@wales.gsi.gov.uk.  Nodwch y canlynol fel pennawd i'ch neges e-bost: Canc Serv.  **Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw dydd Llun 24 Gorffennaf 2006.**

Mrs Jane Westlake
Clerc y Pwyllgor

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Adolygu Gwasnaethau Canser ar gyfer Pobl Cymru**

| |
|---|
| **Enw'r ymatebydd:** |
| **A ydych yn ymateb ar ran sefydliad?** |
| **Os felly, nodwch enw'r sefydliad** |
| **Cyfeiriad:** |
| **Rhif ffôn:** |
| **A fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor?** |
| **Os mai eich barn bersonol yw'r dystiolaeth a geir isod yn hytrach na barn y sefydliad, nodwch a ydych yn fodlon i ni gyhoeddi eich tystiolaeth drwy roi X yn y blwch priodol isod:** |
| **Rwyf yn fodlon i chi gyhoeddi fy nhystiolaeth** |
| **Nid wyf yn fodlon i chi gyhoeddi fy nhystiolaeth** |

| | |
|---|---|
| **1** | **Sut y gellir defnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol i olrhain a hwyluso llwybr y claf?** |
| **Ymateb** | |
| **2)** | **Pa mor effeithiol y caiff gwaith ymchwil ac arfer da eu hintegreiddio â'r broses o ddarparu gwasanaethau? Beth y gellir ei wneud i wella hyn a phwy fyddai'n gyfrifol am wneud hyn?** |
| **Ymateb** | |
| **3** | **Beth yw eich barn ar gymhlethdod y broses o gomisiynu gwasanaethau? A gaiff y broses ei rhwystro gan gyfraniad byrddau iechyd lleol, rhwydweithiau canser a Chomisiwn Iechyd Cymru? Sut y gellir ei symleiddio?** |
| **Ymateb** | |
| **4** | **Pa dystiolaeth sydd ar gael o ran gwerth sgrinio ac imiwneiddio?** |

| | |
|---|---|
| **Ymateb** | |
| **5** | **Beth sy'n rhwystro'r GIG yng Nghymru rhag dysgu am dechnolegau a therapïau sy'n datblygu, ac ymateb iddynt? Sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn?** |
| **Ymateb** | |
| **6** | **Sut y gall y GIG a'r sector gwirfoddol weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i ddarparu gwasanaethau?** |
| **Ymateb** | |
| **7** | **Sut y gellir gwella'r broses o gasglu a defnyddio data o ran ble mae pobl sydd â salwch terfynol yn treulio'u hwythnosau neu eu misoedd olaf, er mwyn llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau i'r bobl hynny?** |
| **Ymateb** | |
| **8** | **Mae yna nifero faterion ynghylch rhagnodi cyffuriau a chost cyffuriau:** |
| **8(i)** | **Beth ddylid ei wneud i leihau'r achosion o ragnodi cyffuriau amhriodol, a phwy ddylai wneud hyn?** |
| **Ymateb** | |
| **8(ii)** | **A ddylai fod yn bosibl i bobl sy'n fodlon talu'n breifat am gyffuriau nad yw'r GIG yn barod i'w darparu iddynt, wneud hynny heb ddod yn gleifion preifat a gorfod talu am y driniaeth gyfan?** |
| **Ymateb** | |
| **8(iii)** | **A oes digon o gyngor a chanllawiau *annibynnol* ar gael i feddygon, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ar ragnodi cyffuriau?** |
| **Ymateb** | |

| | |
|---|---|
| **9** | **A yw gwasanaethau'n canolbwyntio ar y claf, gan sicrhau ymgynghoriad â defnyddwyr gwasnaethau? Os na, beth yw'r rhesymau dros hyn a sut y gellir gwella'r broses o gynnwys cleifion?** |
| **Ymateb** | |

Diolch am ymateb. Os yw'n bosibl, anfonwch eich ymatebion drwy anfon e-bost at jane.westlake@wales.gsi.gov.uk. Fel arall, anfonwch eich ymatebion drwy'r post at Jane Westlake, Clerc y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ystafell B4.07, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw dydd Llun 24 Gorffennaf 2006.**